# CYNGOR CYMUNED *LLANWINIO* COMMUNITY COUNCIL

Cynhaliwyd cyfarfod o Gyngor Cymuned Llanwinio ar nos Fawrth 21ain o Dachwedd 2017 am 8.00yh yn Neuadd Gymuned Llanwinio.

**PRESENNOL:** Cyng H James, D Lewis, P Walton, W Evans, G Evans, J Phillips, R Gallie, J Lewis (CSC) a K Bowen (clerc).

**YMDDIHEURIADAU:** Dim

Hefyd yn bresennol oedd Mr B Wasson a Ms L Agoust

**COFNODION:** Darllenwyd cofnodion cyfarfod 19eg o Fedi a derbyniwyd yn gywir.

**DATGANIADAU O DDIDDORDEB**: Dim

**MATERION YN CODI:**

Nid yw'r cangennau sy'n gorhongian ar yr heol o Maesygrove i Gwmbach wedi eu torri n'ol eto.

Mae'r afon yng Nghwmbach a'r ffosydd wedi ei clirio. Mae swyddogion CSC wedi ymweld a'r mannau yn Blaenwaun a Chwmfelin Mynach lle bu problemau efo llifogydd.

Mae'r cinio nadolig wedi ei drefnu am 27ain o Ionawr 2018 yn y Nags Head, Abercych.

**ADOLYGIAD O'R SECTOR CYNGOR CYMUNED A THREF:**

Mae Un Llais Cymru yn cynnal cyfres o weithdai ymgynghorol ar draws Cymru ac wedi gwahodd cyngorau i ddanfon cynrychiolwyr i'w lleoliad agosaf. Fe fydd Cyng J Phillips a'r clerc yn mynychu'r sesiwn yn San Cler ar 04/12/17.

**GOHEBIAETH:**

Atgoffodd CSC y Cyngor fod eisiau cael cyniatad yr awdurdod priffyrdd i osod addurniadau tymhorol uwchben heol cyhoeddus.

Fe wnaeth y Comisiwn Ffiniau dros Gymru ysgrifennu i ddweud ei bod wedi cyhoeddi ei cynlluniau diwygiedig ar gyfer newidiadau i etholaethau Seneddol yng Nghymru. Ar gael i'w gweld ar: www.bcomm-wales.gov.uk

Dylai unrhyw sylwadau gael eu gwneud cyn 11/12/17.

Derbyniwyd llythyr oddi wrth Ms Agoust yn gofyn am fanylion pryd , ble a pha gynghorwyr oedd wedi derbyn hyfforddiant côd ymddygiad. Clerc i ymateb.

**DERBYNIADAU:**

| | |
|---|---|
| Lles cymunedol twrbin gwynt Plasparcau | £829.60 |

**BILIAU:**

Swyddfa Archwilio Cymru – archwilio cyfrifon 2016/17 £208.50

SSE – trydan neuadd gymuned (26/07/17 – 23/10/17) £114.69

**ADRODDIAD ARIANNOL:**

Cyfrif Trysorydd - £2658.08

Cyfrif Busnes – £6922.68

**CYNLLUNIO:** Dim

**PROSIECT HAWLIAU FFORDD LLANWINIO:**

Fe wnaeth rhai o'r cynghorwyr gyfarfod efo swyddogion CSC i drafod y gwaith ar y llwybrau gafodd flaenoriaeth gan y Cyngor Cymuned am 2017/18. Heblaw am unrhyw amgylchiadau annisgwyl mae'r swyddogion yn disgwyl cwblhau y gwaith i gyd erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.

Clerc i ofyn am ddiweddariad cyn pob cyfarfod o hyn ymlaen.

Yn dilyn cais gan Ms Agoust mae datganiad wedi ei roddi ar wefan y Cyngor Cymuned yn atgoffa tirfeddianwyr o hawl cerddwyr i gerdded unrhyw lwybr cyhoeddus unrhyw bryd heb rwystr. www.llanwiniocommunitycouncil.co.uk

**U.F.A.**

Gofynnodd Cyng P Walton am ganiatad i fynychu sesiwn hyfforddi gan Un Llais Cymru ar ddatganoli a throsglwyddo asedau. Rhoddwyd caniatad.

Clerc i hysbysu CSC o dwll yn yr heol rhwng Fronuchaf a Llys y Gwynt.

Gan fod yna ddim rhagor o fusnes fe wnaeth y Gadair ddiolch i bawb oedd wedi mynychu a datganodd fod y cyfarfod ar gau.

**Cynhelir y cyfarfod nesaf ar nos Fawrth 16eg o Ionawr 2018 am 8.00yh yn Neuadd Gymuned Llanwinio.**